



Mae Awdurdod Lleol Pen-y-bont wedi cyhoeddi heddiw na fydd wythnos ychwanegol yn nhymor yr haf. Golyga hyn y bydd tymor ysgol yr haf yn gorffen ar ddydd Gwener 17 Gorffennaf 2020 yn unol â'r calendr gwreiddiol. Felly, mae ein cynnig gwreiddiol o bedair wythnos o sesiynau 'Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi' bellach wedi ei newid i amserlen tair wythnos, sy'n rhywbeth nad oedd modd ei osgoi.

Ar ddydd Llun 22 Mehefin byddwn yn cysylltu â rhieni/gofalwyr trwy wasanaeth negeseuon testun yr ysgol i gadarnhau'r union ddyddiadau pan fydd eich plentyn/plant yn cael ei wahodd/eu gwahodd i fynychu'r ysgol ar gyfer y sesiynau ailgydio. Mae brodyr a chwiorydd wedi cael eu cynnwys ar yr un diwrnodau â'i gilydd lle y bo'n bosibl. Gobeithio eich bod yn gwerthfawrogi yr ymdrech a threfnu sydd wedi bod i sicrhau cyfle i bob plentyn fynychu'r ysgol am ddeuddydd. Yn anffodus, oherwydd y ffrâm amser fer, ni fyddwn yn gallu gwneud newidiadau i'r dyddiadau penodedig hyn a dylai disgyblion fynychu ar y dyddiadau y cawsant eu gwahodd i fynychu arnynt yn unig.

Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru a lleihau y nifer o bobl ar y safle, rydyn yn gwasgaru amseroedd dechrau a gorffen y diwrnod ysgol. Wrth i chi ollwng neu gasglu pob plentyn yn unigol, defnyddiwch y system un ffordd ar safle'r ysgol.

Grŵp Blwyddyn Cyfredol	Amseroedd Ymweld â'r Ysgol
Blwyddyn 6	09.00 – 15.15
Blwyddyn 5	09.00 – 15.15
Blwyddyn 4	09.15 – 15.00
Blwyddyn 3	09.15 – 15.00
Blwyddyn 2	09.30 – 14.45
Blwyddyn 1	09.30 – 14.45
Derbyn	09.45 – 14.30
Meithrin	09.45 – 14.30

Os dywedoch chi wrthym ni yn yr arolwg y bydd eich plentyn/plant yn dychwelyd a bod hyn yn newid yn ddiweddarach, byddai o gymorth mawr i ni pe gallech anfon e-bost i'r ysgol i'n hysbysu ynghylch hyn os gwelwch yn dda. Os ydych eisoes wedi dweud wrthym yn yr arolwg neu drwy'r e-bost na fydd eich plentyn/plant yn dychwelyd, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r amserlen newydd.

Rydyn wedi cyhoeddi manylion pellach am ein trefniadau dychwelyd-i'r-ysgol ar wefan yr ysgol a bydd hyn yn ateb llawer o'r cwestiynau yr ydym eisoes wedi eu cael. Gofynnwn i chi rannu'r trefniadau hyn gyda'ch plentyn/plant. Yn hwyrach yn yr wythnos, rydym hefyd yn gobeithio rhannu fideo byr gyda chi i'w wyllo gyda'ch plentyn/plant a fydd o gymorth i esbonio rhai o'r trefniadau newydd ar gyfer safle'r ysgol. Bydd y disgyblion, wrth gwrs, yn cael croeso cynnes yn yr ysgol yn ystod eu sesiynau ailgydio a bydd aelodau staff yr ysgol yn trafod manylion y trefniadau newydd gyda'r plant ar ddechrau pob diwrnod ysgol.

Hoffwn eich atgoffa, os yw eich angen am le yn yr hyb yn cyd-daro â'r diwrnod y mae eich plentyn wedi ei wahodd i'r ysgol, a wnewch chi ddweud wrthym os gwelwch yn dda pa un a fydd eich plentyn yn mynychu'r hyb ynteu'r sesiwn dosbarth. Oherwydd canllawiau arwahanu'r awdurdod lleol, ni all disgyblion gael mynediad at ddarpariaeth hyb cofleidiol ar ddiwrnod eu sesiwn dosbarth ysgol. Gall rhieni ddewis darpariaeth hyb neu sesiynau dosbarth ysgol os yn bosibl, ond cysylltwch â ni i drafod ymhellach yn ôl yr angen.

Rydyn yn aros am gadarnhad a chanllawiau oddi wrth yr awdurdod lleol ynglŷn â thrafnidiaeth ysgol.

Diolch eto am eich amynedd a'ch cydweithrediad mewn sefyllfa sy'n newid drwy'r amser. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn dilyn diweddiad dydd Llun, cysylltwch â ni'n ddiymdroi a bydd staff yr ysgol yn ymateb cyn gynted ag y bo modd. Cyfeiriad e-bost yr ysgol yw admin.broogwr@bridgend.gov.uk ac mae'n cael ei fonitro'n rheolaidd.

Yn gywir,

Sharon Jayne

Pennaeth

Nik Dart

Cadeirydd y Llywodraethwyr